Taflen Ffeithiau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi sylw i gwynion yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n taflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae AGGCC yn gyfrifol am annog gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyflawni'r nod hwn drwy reoleiddio, arolygu ac adolygu. Mae AGGCC hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisïau. Os credwch chi nad yw AGGCC wedi dilyn y gyfraith, rheoliadau neu ganllawiau, mae'n bosib y bydd yr Ombwdsmon yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn. Fel arfer, byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi gwyno wrth AGGCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn gyntaf.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon:

- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio o swyddogaeth reoleiddio AGGCC;
- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio yn ystod adolygiad AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol;
- edrych ar gwynion lle nad yw AGGCC wedi cyflwyno ymateb;
- ystyried cwynion am broses adrodd AGGCC;
- edrych ar gwynion am weinyddu gwael gan AGGCC.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- ystyried unrhyw faterion yn ymwneud ag atal o'r gwaith, disgyblu neu faterion personél yn ymwneud â swyddogion AGGCC neu'r swyddogion hynny o'r gwasanaethau y mae AGGCC yn ymchwilio iddynt;
- codi cwestiynau am benderfyniad priodol y mae gan AGGCC hawl i'w wneud.

Materion i gadw mewn cof

Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol sy'n ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu plant ac oedolion. Maent yn gweithio gyda chyrff statudol eraill er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon.

Cyn dechrau ystyried cwyn, bydd AGGCC fel arfer yn disgwyl bod y Gwasanaeth a Reoleiddir wedi cael cyfle i ymchwilio i'r gŵyn yn y lle cyntaf, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hyn. Mae AGGCC yn ystyried cwynion lle mae'r gyfraith berthnasol wedi cael ei thorri.

Mae gan Bobl Cofrestredig hefyd hawliau i gyflwyno sylwadau i AGGCC ac i apelio ar faterion rheoleiddio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach am AGGCC, yn cynnwys copïau o adroddiadau arolygu, ar ei gwefan: http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/?skip=1&lang=cy

Os ydych chi am apelio yn erbyn penderfyniad rheoleiddio a wnaethpwyd gan AGGCC, a'ch bod eisoes wedi cyflwyno sylwadau i AGGCC, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal:

Gwasanaethau Tribiwnlys Safonau Gofal
(Tribunal Services Care Standards)
Mowden Hall
Staindrop Road
Darlington
DL3 9BG

Ffôn: 01325 392 712
E-bost: CST@Tribunals.gsi.gov.uk
Gwefan: www.carestandardstribunal.gov.uk

Os oes gennych chi gŵyn am ymddygiad gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal, gallwch gysylltu â Chyngor Gofal Cymru:

Cyngor Gofal Cymru
Tŷ Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0845 0700 248
E-bost: Investigations@ccwales.org.uk
Gwefan: www.ccwales.org.uk

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac yn ddiduedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i weithredu ei argymhellion – ond yn ymarferol, maent yn gwneud hynny'n ddieithriad bron. Gellir gweld achosion y mae'r Ombwdsmon wedi rhoi sylw iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ